

## MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 2)

### Y Bil Pysgodfeydd

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod yn rhaid gosod Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru os yw un o Filiau Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, neu os yw'n gwneud darpariaeth sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cafodd y Bil Pysgodfeydd (y "Bil") ei gyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin ar 25 Hydref 2018. Cyhoeddwyd fersiwn ddiweddaraf y Bil (ar ôl iddo gael ei ystyried gan un o Bwyllgorau Tŷ'r Cyffredin) ar 17 Rhagfyr 2018 ac mae i'w gweld yma:

[Dogfennau'r Bil — Bil Pysgodfeydd 2017-19 — Senedd y DU](#)

### Amcan y Polisi

3. Mae Llywodraeth y DU wedi datgan mai amcanion ei pholisi yw adfer ei rheolaeth ar foroedd y DU ar ôl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, gan ddarparu polisi yn lle'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin.

### Crynodeb o'r Bil

4. Noddir y Bil gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.
5. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer:
  - amcanion polisi mewn perthynas â physgodfeydd, pysgota a dyframaethu;
  - mynediad i bysgodfeydd Prydain;
  - trwyddedu cychod pysgota;
  - pennu a dosbarthu cyfleoedd pysgota;
  - creu cynlluniau ar gyfer codi tâl am ddal pysgod môr heb yr awdurdod i wneud hynny;
  - grantiau ar gyfer pysgota, dyframaethu neu warchod y môr;
  - adennill costau sy'n gysylltiedig ag arfer swyddogaethau cyhoeddus sy'n ymwneud â physgod neu bysgota;
  - rhoi pwerau i wneud darpariaethau pellach mewn cysylltiad â physgodfeydd, dyframaethu neu anifeiliaid y dŵr;
  - gwneud darpariaeth ar gyfer is-ddeddfau a gorchmynion mewn perthynas â defnyddio pysgodfeydd môr; ac at ddibenion cysylltiedig.
6. Ar gais Llywodraeth Cymru, mae'r Bil hefyd yn cynnwys pwerau ar gyfer Gweinidogion Cymru.

## **Y sefyllfa ddiweddaraf ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf**

7. Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Bil ar 15 Tachwedd 2018, yn seiliedig ar y fersiwn o'r Bil a gyflwynwyd i Senedd y DU ar 25 Hydref 2018.
8. Roedd y Memorandwm hwnnw'n cadarnhau bod Llywodraeth Cymru, at ei gilydd, yn cefnogi'r Bil fel y'i drafftwyd, ac eithrio Cymal 18 (Pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i benderfynu ar gyfleoedd pysgota). Fodd bynnag, roedd dau faes arall hefyd nad oeddid wedi mynd i'r afael â hwy yn ddigonol.
9. Yn gyntaf, nid oedd y Bil yn mynd i'r afael â'n pryderon am y ffaith nad oes gan y Cynulliad Cenedlaethol gymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer materion yn ymwneud â physgodfeydd y tu hwnt i Gymru (h.y. nid oedd cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol yn cyfateb i gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru mewn perthynas â materion yn ymwneud â physgodfeydd). Ar 17 Rhagfyr, er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn, cytunwyd yn ystod cam Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin i gynnwys cymal 39 newydd yn y Bil a cheir esboniad o'r cymal hwnnw ym mharagraffau 17 – 19 isod.
10. Yn ail, roedd Llywodraeth Cymru am weld diwygiadau i Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 ("Deddf 2009") yn cael eu cynnwys yn y Bil er mwyn caniatáu i Weinidogion Cymru amrywio o bryd i'w gilydd yr amodau sy'n gysylltiedig ag unrhyw drwyddedau pysgota a roddir gan Weinidogion Cymru yn unol â Deddf 2009. Bydd hynny'n caniatáu i Weinidogion Cymru reoli pysgodfeydd Cymru mewn ffordd llawer mwy hyblyg ac ymatebol.
11. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n trafod â Llywodraeth y DU gyda golwg ar sicrhau gwelliant ar y mater hwn yn nes ymlaen yn ystod proses y Bil.
12. Mae cymal 18 yn darparu mai dim ond er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol yn y DU y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn pennu cyfanswm cyfleoedd pysgota'r DU (o ran uchafswm y pysgod môr a'r nifer mwyaf o ddyddiau y caiff cychod pysgota o Brydain eu treulio ar y môr). Er ei bod yn briodol i'r Ysgrifennydd Gwladol bennu cyfanswm y cyfleoedd pysgota a fydd yn deillio o drafodaethau rhwng y gwladwriaethau arfordirol pan fyddwn yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, gwnaethom nodi yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf sy'n gysylltiedig â'r Bil hwn nad oeddem yn fodlon â'r ffordd yr oedd cymal 18 wedi ei ddrafftio.
13. Barn Llywodraeth y DU yw bod cymal 18 yn ymwneud â rhwymedigaethau rhyngwladol, sy'n swyddogaethau a gadwyd yn ôl, ac felly nad yw'n briodol cynnwys gofyniad yn ymwneud â chydsyniad. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau o'r farn ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddatblygu, mireinio ac ymrwymo i gytundebau rhyngwladol gan fod y mater hwnnw'n un sydd wedi ei gadw'n ôl. Fodd bynnag, nid yw gweithredu cytundebau

rhyngwladol mewn meysydd lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli yn fater sydd wedi ei gadw'n ôl, ac mae o fewn Cymhwysedd Deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Cadarnhawyd hynny gan y Goruchaf Lys yn *Reference of the UK Withdrawal from the EU (Legal Continuity) (Scotland) Bill* [2018] UKSC 64. Gan fod y term "International Obligations" (a ddefnyddir yn y Bil) yn eang ac oherwydd y gallai fod yn cwmpasu gweithredu cytundeb o'r fath, mae'r Cymal **yn** effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol ac felly, mae angen cydsyniad y Cynulliad.

14. Bydd arfer y swyddogaeth hon yn ddarostyngedig (yn unol â chymal 19) i ofyniad i ymgynghori â Gweinidogion Cymru (a gweinyddiaethau pysgodfeydd eraill y DU) ac rydym yn disgwyl hefyd i arfer y swyddogaeth hon fod yn ddarostyngedig i'r Cytundeb Fframwaith Rheoli Pysgodfeydd y mae holl weinyddiaethau pysgodfeydd y DU yn bwriadu cytuno arno wrth inni ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.
15. Mae diwygiadau pellach i'r Bil yn cael eu trafod gyda Llywodraeth y DU. Yn eu plith y mae diwygiad i'r pŵer i wneud gorchymyn interim a nodir yn adran 136 o Ddeddf 2009 a fyddai'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud gorchymynion interim at ddibenion rheoli pysgodfeydd mewn sefyllfaoedd ac eithrio sefyllfaoedd nad ydynt ond yn gysylltiedig â gwarchod Parth Cadwraeth Morol (neu barth a all gael ei ddynodi'n Barth Cadwraeth Morol). Byddai'r Gorchymynion hyn, na fyddai angen gweithdrefn ar eu cyfer, yn caniatáu i Weinidogion Cymru weithredu'n gyflym ac ymateb er mwyn atal difrod i'n hamgylchedd morol wrth i fesurau mwy priodol gael eu datblygu yn y ffordd arferol. Bydd mwy o angen i weithredu'n gyflym fel hyn unwaith y byddwn wedi ymadael â'r Undeb Ewropeaidd ac unwaith na fydd y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin yn gymwys bellach yn nyfroedd Cymru.

### **Newidiadau i'r Bil ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf ac y mae angen cydsyniad ar eu cyfer.**

16. Mae'r diwygiadau a ganlyn sy'n berthnasol i Gymru ac sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cael eu gwneud i'r Bil wrth iddo gael ei ystyried gan un o Bwyllgorau Tŷ'r Cyffredin:
17. Mae cymal 39 newydd yn diwygio adran 108A (cymhwysedd deddfwriaethol) Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006") ac yn gwneud nifer o newidiadau canlyniadol pellach i Ddeddf 2006. Mewn sodir adran 108A(4A) newydd sy'n darparu bod cyfeiriadau at Gymru yn is-adrannau (2)(b) a (3) o adran 108A yn cynnwys ardal parth Cymru mewn perthynas â physgota, pysgodfeydd neu iechyd pysgod. Yr effaith, mewn perthynas â physgota, pysgodfeydd ac iechyd pysgod, yw bod cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael ei estyn i Gymru ac i barth Cymru.
18. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gallu deddfu eisoes (ac y bydd yn parhau i fedru gwneud hynny) mewn perthynas â chychod pysgota o Gymru y tu hwnt i Gymru ar y sail y byddai

deddfwriaeth o'r fath "in relation to Wales" at ddibenion adran 108A(2)(b) o Ddeddf 2006.

19. Mae sicrhau bod y diwygiad hwn yn cael ei gynnwys yn y Bil yn gam pwysig ymlaen yn gyfansoddiadol a bydd yn galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gyflwyno Bil Pysgodfeydd gan y Cynulliad mewn perthynas â Chymru, parth Cymru a chychod pysgota o Gymru y tu allan i'r parth hwnnw.
20. Mae diwygiadau wedi eu gwneud i Gymal 17 er mwyn i'r darpariaethau diwygiedig (ac estynedig) a nodir yn Atodlen 3 i'r Bil gael eu cyflwyno'n briodol.
21. Mae cymal 41 newydd yn gwneud ychwanegiad technegol i'r Bil trwy ddarparu bod unrhyw ddiwygiadau i is-deddfwriaeth a wneir gan y Bil, ac y gellid bod wedi eu gwneud o dan ddeddfiad arall, yn cael effaith fel pe baent wedi eu gwneud o dan y deddfiad hwnnw. Diben y ddarpariaeth hon yw sicrhau nad yw'r Bil, wrth ddiwygio offerynnau statudol, yn cyfyngu ar yr hyn y gellir ei wneud o dan y pwerau y gwnaed yr offerynnau hynny oddi tanynt yn wreiddiol.
22. Mae paragraff 5 o Atodlen 3 i'r Bil (sy'n gwneud diwygiadau canlyniadol i Ddeddf Pysgodfeydd Môr (Cadwraeth) 1967 ("Deddf 1967") wedi cael ei ddiwygio er mwyn gwneud newidiadau pellach i adran 22 o Ddeddf 1967 sy'n darparu bod cyfeiriadau at "British Fishing Boat" yn y Ddeddf honno ac mewn is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan y Ddeddf honno yn cynnwys "foreign fishing boat". Bydd hyn yn sicrhau y bydd Deddf 1967 ac unrhyw ddeddfwriaeth a wnaed eisoes yn unol â hi yn gymwys i'r un graddau i gychod pysgota domestig y DU ac i gychod pysgota tramor.
23. Mae paragraffau 6 i 10 newydd wedi cael eu hychwanegu hefyd i Atodlen 3 i'r Bil er mwyn gwneud diwygiadau canlyniadol (o ganlyniad i'r ffaith bod adran 4 o Ddeddf 1967 wedi cael ei diddymu) i Ddeddf Terfynau Pysgodfeydd 1976, Deddf Pysgodfeydd 1981, Deddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1992, Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009.
24. Ar gais Llywodraeth Cymru, mewnosodwyd paragraff 12 newydd yn Atodlen 3 i'r Bil sy'n diwygio Rheoliadau Pysgota Môr (Trwyddedau a Hysbysiadau) 1994 (O.S. 1994/2813) ("Rheoliadau 1994"). Mae Rheoliadau 1994 yn parhau'n gymwys yng Nghymru ond nid ydynt, ar hyn o bryd, yn caniatáu i ddeiliaid trwyddedau gael eu hysbysu am newidiadau i drwyddedau a hysbysiadau drwy gyhoeddi'r newidiadau hynny ar wefan. Mae'r ddeddfwriaeth gyfatebol sy'n ymdrin â Thrwyddedau a Hysbysiadau yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon wedi cael eu diwygio i'r perwyl hwnnw eisoes. Mae'r newid hwn yn hanfodol i'r drefn newydd o reoli pysgodfeydd a fydd yn cael ei rhoi ar waith yn syth ar ôl i'r darpariaethau perthnasol yn y Bil ddod i rym. Yr unig ffordd ymarferol o sicrhau bod y diwygiadau i Reoliadau 1994 yn dod i rym ar yr adeg angenrheidiol yw cynnwys y newidiadau hynny yn y Bil. Mae'r newidiadau hyn a newidiadau

hanfodol eraill (er mwyn sicrhau y bydd modd rhoi'r system newydd o reoli pysgodfeydd ar waith) i Reoliadau 1994 ac i'r Rheoliadau sy'n gymwys i Drwyddedau a Hysbysiadau yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael eu cyflwyno (ar ôl i'r Bil gael ei ddiwygio) drwy Atodlen 3 i'r Bil Pysgodfeydd. O gofio bod y diwygiadau arfaethedig i Reoliadau 1994, ac amseriad y diwygiadau hynny, yn hanfodol, mae Llywodraeth Cymru yn argymhell bod y newidiadau hyn yn cael eu gwneud ym Mil Pysgodfeydd Llywodraeth y DU.

25. Mae gofyn cael cydsyniad ar gyfer y darpariaethau oherwydd eu bod yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad neu oherwydd eu bod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

### **Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil fel y'i diwygiwyd**

26. Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r gwelliannau a wnaed i'r Bil wrth iddo gael ei ystyried gan un o Bwyllgorau Tŷ'r Cyffredin. Mae trafodaethau'n parhau gyda Llywodraeth y DU ar rai agweddau ar y Bil ac, os bydd angen, bydd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol arall yn cael ei osod.

### **Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Pysgodfeydd**

27. Mae'r Bil yn creu prif elfennau deddfwriaethol Fframwaith y DU ar gyfer rheoli a rhoi cymorth i bysgodfeydd ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Bil ar lefel y DU yw'r unig ffordd briodol o gymhwyso'r darpariaethau hyn, oherwydd bod hynny'n darparu set unffurf o bwerau, rhwymedigaethau ac amcanion.

### **Goblygiadau ariannol**

28. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i Gymru o ganlyniad i'r ffaith bod y darpariaethau hyn yn cael eu cyflwyno yn y Bil hwn.

### **Casgliad**

29. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn gan Senedd y DU oherwydd bod angen gweithredu ar lefel y DU gyfan er mwyn creu'r Fframwaith Pysgodfeydd. Dim ond mewn Bil gan Senedd y DU y gellir gwneud hynny.
30. Disgwylir i'r gwelliannau a wnaed i'r Bil hyd yma, a'r ffaith bod disgwyl i ganlyniad y trafodaethau gyda Llywodraeth y DU fod yn gadarnhaol, fynd i'r afael â'r pryderon a nodir uchod ac yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf.

**Lesley Griffiths AC**  
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**  
**Ionawr 2019**